❖ Oleuni Pob Goleuni

Gogoneddwn di, O Feistr, carwr pawb,
hollalluog, cyn-dragwyddol Frenin,
fe'th ogoneddwn, Greawdwr a Gwneuthurwr pob peth.
Oleuni pob goleuni, fe'th ogoneddwn.

Gogoneddwn di, O unig-anedig Fab Duw,
a anwyd heb dad o'th fam,
a anwyd heb fam o'th Dad.
Oleuni pob goleuni, fe'th ogoneddwn.

Fel y bu i ras yr Ysbryd Glân ar ffurf
colomen ddisgyn ar y dyfroedd;
felly fe gododd yr Haul nad yw fyth yn machlud
a llanwyd y byd ag ysblander goleuni'r Arglwydd.
Oleuni pob goleuni, gogoneddwn di.

Heddiw llewyrcha'r lloer ar y byd
gyda gloywder ei belydrau.
Heddiw mae'r sêr disglair yn tecáu
y ddaear gyda llewyrch eu goleuni.
Oleuni pob goleuni, gogoneddwn di.

O Ti y bu i'r Iorddonen droi'n ei hôl iddo,
gweld yr Anweledig yn y gweledig,
y Creawdwr a wnaed yn gnawd,
y Meistr ar ffurf gwas.
Oleuni pob goleuni, gogoneddwn di.

O Ti y bu i'r Iorddonen droi'n ei hôl iddo
ac y llamodd y mynyddoedd o'i blegid
wrth edrych ar Dduw yn y cnawd; a'r cymylau
a godasant eu llais, gan ryfeddu at yr hwn oedd i ddod,
Goleuni y Goleuni, gwir Dduw o'r gwir Dduw.
Oleuni pob goleuni, gogoneddwn di.

Litwrgi'r Eglwys Uniongred